Dogfen ir Cyhoedd

## RHAGLEN

**1** **RHAGLEN** (Tudalennau 1 - 60)

This page is intentionally left blank

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Head of Legal and Democratic Services
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

CS/NG

29 Hydref 2018

Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Y Cynghorwyr: Carolyn Thomas, Richard Dew, Brian Jones, Dafydd Meurig, Don Milne, Bob Parry, Sam Rowlands, Aaron Shotton, Julian Thompson-Hill and Gareth Wyn Griffith

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir Cyfarfod **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU** yn **T CANOLFAN FUSNES CONWY, CYFFORDD LLANDUDNO** ar **DYDD MERCHER 31AIN HYDREF 2018** am **10.00 a.m.** i drafod y materion canlynol.

## A G E N D A

1 **YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw Ddatganiadau a chynghori'r Aelodau yn unol â hynny.

3 **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL** (Tudalennau 5 - 12)

**Pwrpas:** Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.

4 **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

5 **DIWEDDARIAD ADEILADU (AR LAFAR) A RÔL YR ARDYSTIWR ANNIBYNNOL** (Tudalennau 15 - 18)

**Pwrpas:** Diweddaraid ar gynnydd ac amserlen adeiladu.

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

6 **DIWEDDARIAD CYNLLUNIO ADNODDAU A CHOMISIYNU** (Tudalennau 19 - 22)

**Pwrpas**: Diweddaru'r Aelodau ar gynnydd y paratoadau ar gyfer comisiynu a gwastraff sy'n mynd i mewn i Parc Adfer.

**Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 - Ystyried gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 o 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

Mae'r adroddiadau yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract

7 **CAMAU GWEITHREDU O BRESENOLDEB UNDEB LLAFUR YN Y CYDBWYLLGOR YM MIS MEHEFIN 2018** (Tudalennau 23 - 51)

**Pwrpas**: Darparu cyfres lawn o ymatebion i'r camau a godwyd gan undebau GMB ac Unite yn y Cyd-bwyllgor diwethaf ym mis Mehefin 2018

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 o 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

Mae'r adroddiadau yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract

8 **ADRODDIAD GWASANAETHAU CLUDIANT A GORSAFOEDD TROSGLWYDDO GWASTRAFF** (Tudalennau 52 - 56)

**Pwrpas**: Diweddaru'r Aelodau ar gynnydd y fanyleb a phroses dendro Contract Cloudiant

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 o 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

Mae'r adroddiadau yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract

9 **ARIAN LLYWODRAETH CYMRU** (Tudalennau 57 - 60)

**Pwrpas**: Adolygu cyfraniad ffioedd giât Llywodraeth Cymru i'r Bartneriaeth

## 10 <u>**UNRHYW FATER ARALL**</u>

Yr gywir



Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

# CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Dydd Iau 21ain Mehefin 2018 am 2.00pm
Bodlondeb, Bangor Road, Conwy

---

**PRESENNOL**

| | |
|---|---|
| Cyng. Richard Dew | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Brian Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Don Milne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. Bob Parry | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Sam Rowlands | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. Aaron Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. Gareth Wyn Griffith | Cyngor Gwynedd |

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Cyngor Sir y Fflint**
Colin Everett (Prif Weithredwr Arweiniol), Lisa Brownbill (Pennaeth Archwilio Mewnol) a Dave Ledsham (Rheolwr Cyllid Amgylchedd)

**Cyngor Sir Ddinbych**
Tony Ward (Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol) ac Alan Roberts (Swyddog Gwastraff)

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Andrew Wilkinson (Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth)

**Gwynedd Council**
Medwyn Williams (Uwch-Reolwr – Trin Gwastraff)

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Dewi Williams (Pennaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)

**Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**
Steffan Owen (Rheolwr Contract Rhanbarthol)

**Partneriaethau Lleol DU**
Hywel Jones (Ymgynghorydd)
Mark Turner (Ymgynghorydd)

**Gwahoddedigion Allanol**
Steve Benson (Cynrychiolydd Unite)
Stephen Butterworth (Cynrychiolydd GMB)
Paul Burton (Aelod GMB)
Julian Harrison ac Apostolos Sarandidis (Cynrychiolwyr Technolegau Wheelabrator)
Becky Bell a Julien Trystram (Cynrychiolwyr CNIM)

DRAFT

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd), y Cynghorydd Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint), y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Cyngor Sir Ddinbych), Meirion Edwards (Cyngor Sir Ynys Môn) a Dave Keville (Cynrychiolydd Cymdeithas Diwydiant Adeiladu Peirianneg)

2. **DATGAN DIDDORDEB**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. **ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD I'R CYD BWYLLGOR**

Etholwyd y Cynghorydd Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint) yn Gadeirydd, a’r Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn Is-gadeirydd.

4. **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar $27^{ain}$ Mawrth 2018 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:** *Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.*

5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. **CYFRIFON BLYNYDDOL**

Cyflwynodd Dave Ledsham adroddiad ar y Ffurflen Flynyddol, Blwyddyn yn dod i ben 31ain Mawrth 2018 ar gyfer Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (NWRWP), i'w gymeradwyo. Roedd y Ffurflen Flynyddol wedi ei llofnodi gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol a rhaid iddi gael ei chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor cyn y dyddiad terfyn o 30ain Mehefin. Rhaid i'r archwiliad gael ei gwblhau a rhaid cyhoeddi’r Ffurflen Flynyddol ddim hwyrach na 30ain Medi.

Esboniodd Dave Ledsham fod y Ffurflen Flynyddol yn cynnwys costau Ad-dalu Mewnol Cyngor Sir y Fflint (FCC) ar gyfer gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol, Archwilio, Prif Weithredwr a Gwasanaethau Democrataidd. Dylid nodi na fu’n bosib cwblhau'r dadansoddiad manwl o ad-dalu mewnol Cyngor Sir y Fflint mewn pryd ar gyfer y prif anfoneb i awdurdodau partner, felly bydd yn cael ei roi i'r awdurdodau fel eitem ar wahân. Manylwyd ar ddadansoddiad o'r costau yn yr adroddiad.

Esboniodd Colin Everett (Prif Weithredwr Arweiniol) fod y Ffurflen Flynyddol yn ffurflen arferol ac roedd y ffigurau'n dangos llai o ddibyniaeth ar gostau

DRAFT

ymgynghori a oedd yn adlewyrchu sut yr oedd y prosiect wedi symud ymlaen. Eglurodd fod y costau ad-dalu mewnol ar gyfer y Cyngor Sir y Fflint wedi'u cynnwys i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu hail-godi'n gymesur ar draws yr holl Awdurdodau Lleol.

**PENDERFYNWYD:** *Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer diwedd y flwyddyn 31ain Mawrth 2018.*

7. **CYNNYDD Y PROSIECT**

Esboniodd Steffan Owen y byddai adroddiad ar gynnydd ar y safle yn cael ei ddarparu yn nes ymlaen yn y cyfarfod. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am feysydd nad ydynt wedi'u cynnwys o dan eitemau agenda eraill, gan gynnwys camau nesaf y Gronfa Budd Cymunedol a hyfforddiant rheoli contractau.

**PENDERFYNWYD:** *Nodi'r diweddariad ar yr adroddiad cynnydd.*

8. **DIWEDDARIAD ADEILADU (A) A THRAFODAETH GYDA UNDEBAU (B)**

Croesawodd Colin Everett y mynychwyr allanol i'r cyfarfod. Dywedodd fod cynrychiolwyr Unite a GMB wedi cael eu gwahodd i annerch y Cyd-bwyllgor a bod Wheelabrator Technologies (WTI) a chynrychiolwyr CNIM yn bresennol i ymateb i ymholiadau / pryderon a godwyd.

Cyn i'r mynychwyr allanol annerch y Cyd-bwyllgor, cyflwynodd Steffan Owen y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar adeiladu'r cyfleuster Parc Adfer. Rhoddodd drosolwg manwl ar feysydd allweddol o gynnydd, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, a dywedodd nad oedd unrhyw ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch adroddadwy wedi bod ers dechrau'r adeiladu ers mis Ionawr 2017, a oedd yn golygu bod y safle dros 400,000 o oriau gwaith heb digwyddiad adroddadwy. Derbyniwyd cwyn yn ymwneud â digwyddiad a fu bron yn ddamwain rhwng beicwyr yn defnyddio'r ffordd gyhoeddus a cherbyd yn mynd i mewn i'r safle. Cynhaliwyd camau adferol o fewn 48 awr a oedd yn cynnwys hysbysu'r holl staff adeiladu am y perygl i feicwyr ac ailbaentio'r marciau ar y gyffordd 'T' y tu allan i'r safle. Gwahoddwyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i'r safle ond ni awgrymwyd unrhyw argymhellion neu welliannau.

Gwahoddodd y Cadeirydd Steve Benson (Unite), Stephen Butterworth (GMB) a Paul Burton (GMB) i annerch y Cyd-bwyllgor.

Amlinellodd Steve Benson (Unite) y pryderon canlynol a oedd gan Unite:-

- Pam na cheisiodd y 5 Awdurdod Lleol adeiladu'r Parc Adfer o dan y Cytundeb Cenedlaethol ar gyfer y Diwydiant Adeiladu Peirianneg (NAECI);
- Nid oedd unrhyw gyfleoedd i ymadawyr ysgol, trwy gynllun prentisiaeth, ym Mharc Adfer;

- Mae nifer uchel o weithwyr asiantaeth yn gweithio ar y prosiect, gydag oriau gwaith heb fod yn sefydlog;
- Diffyg llafur lleol ar y prosiect; a
- Phryderon, yn ystod y ffair swyddi, yr honnwyd bod unigolion wedi cael eu holi a oeddent yn perthyn i undeb llafur. Dywedodd Mr Benson bod ei fater wedi'i gymryd i fyny gydag ACAS oherwydd "nid oedd yr un unigolyn a oedd yn perthyn i undeb llafur wedi cael cynnig cyflogaeth".

Cyfeiriodd Steve Benson hefyd at e-bost a anfonodd at Steffan Owen ynglŷn â'r NAECI a'i ddefnydd mewn Prosiect Bio-màs diweddar. Trwy ddefnyddio NAECI, cyflenwyd y prosiect hwn o flaen ei amser ac ar y gyllideb.

Amlinellodd Stephen Butterworth (GMB) bryderon tebyg i'r rhai a godwyd gan Steve Benson. Dywedodd ei fod wedi mynychu cyfarfod â chwmni yn Warsaw, Gwlad Pwyl yn ddiweddar gyda chydweithwyr i amlinellu manteision cadarnhaol NAECI. Dywedodd ei fod, ar sawl achlysur, wedi gofyn am wybodaeth am faint o weithwyr yn y DU a gyflogwyd trwy CNIM ond nad oeddent wedi gallu cael y wybodaeth hon a nododd fod cynrychiolwyr y cwmni Pwylaidd wedi amlinellu'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu o golli gweithwyr medrus o Wlad Pwyl oherwydd y cyfleoedd a roddir i weithwyr Pwylaidd yn y DU. Dywedodd Mr Benson hefyd ei fod wedi gofyn am gyfraddau cyflog ar gyfer cyflogeion, ond eto nad oedd wedi derbyn y wybodaeth hon. Rhoddodd dystiolaeth o brosiectau lle'r oedd contractau wedi'u diwygio i gyflwyno NAECI ac eglurodd nad oedd un diwrnod wedi ei golli oherwydd y cytundeb.

Cyflwynodd Paul Burton (GMB) ei hun fel aelod o GMB a phreswylydd Sir y Fflint. Eglurodd ei fod wedi anfon ei CV i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd ar wefan Parc Adfer ond nad oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth mewn ymateb, ac na allai ddod o hyd i rif cyswllt i siarad ag unrhyw un yn bersonol. Roedd wedi mynychu'r ffair swyddi ddiwethaf a dywedodd y cafodd ei holi a oedd yn aelod o undeb llafur. Nododd fod ganddo ddigon o brofiad i gael ei gyflogi ym Mharc Adfer, ond nad oedd unrhyw gyfleoedd i bobl leol.

Dywedodd Colin Everett ei fod wedi mynychu dau gyfarfod â Steffan Owen a chynrychiolwyr o WTI, CNIM a'r Undebau i drafod pryderon yr Undeb. Yn ystod y cyfarfodydd, roedd yr Undebau wedi gofyn pam nad oedd NAECI wedi cael ei fabwysiadu ac eglurwyd i'r Undebau bod y contract Prosiect wedi'i ddyfarnu i WTI ym mis Rhagfyr 2016, felly nid oedd y Bartneriaeth mewn sefyllfa gytundebol i osod NAECI ar naill ai WTI neu ei isgontractwyr ar ôl y ffaith.

Ymatebodd Becky Bell (CNIM) i'r cwestiynau a godwyd. Eglurodd fod CNIM wedi sefydlu gwefan i gynorthwyo i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ond dywedodd nad oedd CNIM yn cyflogi llawer o bobl yn uniongyrchol ar y prosiect. Dywedodd fod ymatebion wedi cael eu darparu i geisiadau Paul Burton a bod adroddiad ar bob cyswllt a wnaed ac ymateb yn cael ei gynhyrchu a'i gadw'n rheolaidd. Derbyniodd fod cyfleoedd cyflogaeth yn gyfyngedig oherwydd bod isgontractwyr yn dod â'u tîm craidd eu hunain pan

DRAFT

oedd angen, ond dywedodd y byddai pob unigolyn sy'n chwilio am waith yn cael ei ystyried yn gyfartal. Roedd hi'n gweld bod aelodau'r Undeb ar y safle ac nad oedd unrhyw faterion gyda gweithwyr yn aelodau o undeb llafur. Mewn perthynas â'r pryderon ynghylch prentisiaethau, dywedodd ei bod hi'n hapus i weithio gydag Undebau ar y safle i drafod hyn ymhellach a hefyd cadarnhaodd bod CNIM yn defnyddio staff asiantaethau ond nad oedd unrhyw gontractau oriau sero. Daeth i'r casgliad bod gan holl drigolion yr UE yr hawl i gael mynediad at waith a bod archwiliad allanol o niferoedd llafur lleol wedi'i gynnal.

Gofynnodd Colin Everett a oedd CNIM yn ymwybodol bod pobl yn cael eu holi a oeddent yn aelod o undeb llafur yn ystod y ffair swyddi. Dywedodd Becky Bell na ddylid bod wedi gofyn y cwestiwn hwn i unrhyw un, a byddai'n edrych ar y mater yn dilyn y cyfarfod. Ategodd Steve Benson ei sylwadau nad oedd unrhyw gyfleoedd gwaith yn cael eu rhoi i unrhyw un a ddywedodd yn ystod y ffair swyddi eu bod yn aelod o undeb llafur.

Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch archwiliad allanol o niferoedd llafur lleol, dywedodd Lisa Brownbill (Pennaeth Archwilio Mewnol yng Nghyngor Sir y Fflint ) fod archwiliad wedi'i wneud ar y niferoedd llafur lleol fel y'i diffinnir o fewn radiws 30 milltir i'r safle. Darparodd CNIM yr Archwiliad Mewnol yng Nghyngor Sir y Fflint gyda'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdano a'r system y maent yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gofnodi data yn soffistigedig a chodau post y gweithwyr wedi'u storio. Roedd y wybodaeth am weithwyr a gasglwyd ar 1af Mai 2018 yn dangos cyfanswm o 238 o unigolion. Gwaharddwyd rhywfaint o wybodaeth am weithwyr, ond o'r gweddill o'r wybodaeth, canfuwyd bod 30% yn llafur lleol. Rhoddwyd adborth i CNIM ynghylch sicrhau bod ffigyrau llafur lleol yn cael eu cyhoeddi i ddangos tryloywder, a chymerwyd yr holl gyngor / argymhelliad a roddwyd.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Prif Weithredwr Arweiniol a'r Rheolwr Contract am hwyluso'r holl bartïon a oedd yn mynychu'r cyfarfod. Eglurodd fod y Cyd-bwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o 5 Awdurdod Lleol a theimlai ei fod wedi bod yn annheg bod rhai o'r protestiadau undebau llafur wedi digwydd yng Nghyngor Sir y Fflint. Dywedodd bod problemau o ran sicrhau contractwyr cymdeithasol / moesegol gyfrifol yn y sector adeiladu a'r gallu i ddiogelu gwasanaethau trwy gytundeb NAECI. Eglurodd, fel Aelodau'r Cyd-bwyllgor, bod cyngor Swyddogion a Llywodraeth Cymru wedi cael ei gymryd bob amser ac amlinellodd yr anawsterau o ran y posibilrwydd y byddai'r Cyd-bwyllgor yn gosod NAECI. Dywedodd, fel Aelod o'r Cyd-bwyllgor, ei fod am gael sicrwydd bod pawb yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd cyflogaeth ac roeddent am sicrhau bod buddion i bobl leol. Dywedodd ei fod yn pryderu ynghylch sylwadau bod unigolion wedi cael eu holi a oeddent yn aelod o undeb llafur yn y ffair swyddi ac roedd yn gobeithio y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried.

Dywedodd Steve Benson mai cyfrifoldeb y cleient oedd ceisio NAECI ac yn yr achos hwn y cleientiaid oedd y 5 Awdurdod Lleol. Gofynnodd y cwestiynau canlynol i'r Cyd-bwyllgor:-

- Dim ond 1 person lleol a gyflogir ar y safle, a oedd y 5 Awdurdod Lleol yn hapus â hyn;
- Nid oedd unrhyw gyfleoedd prentisiaeth / hyfforddeion ar y safle, a oedd y 5 Awdurdod Lleol yn hapus â hyn; a
- Pam na wnaeth y 5 Awdurdod Lleol fynnu bod llafur / cwmnïau lleol yn cael eu defnyddio wrth adeiladu Parc Adfer?

Cyfeiriodd Steve Benson hefyd at ymweliad safle diweddar a oedd yn caniatáu i Undebau ymweld â'r safle a siarad â gweithwyr yn uniongyrchol. Mynegodd bryderon bod y cyfnod egwyl wedi'i newid i sicrhau nad oedd gweithwyr yn cwrdd â chynrychiolwyr yr Undeb. Ymatebodd Steffan Owen ei fod wedi bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad â'r safle a dywedodd fod cynrychiolwyr yr Undeb wedi rhannu taflenni a dywedodd nad oedd unrhyw ymgais wedi ei wneud i atal gweithwyr rhag mynd i siarad â chynrychiolwyr yr Undeb. Dywedodd Colin Everett fod yr ymweliad safle wedi'i drefnu trwy delerau a gytunwyd ar y cyd â chynrychiolwyr yr Undeb a dywedodd y gellid trefnu mwy o ymweliadau â’r safle.

Eglurodd Julian Harrison (WTI) nad oedd y ffaith nad oedd adeiladu Parc Adfer yn cael ei wneud o dan NAECI yn golygu bod yr adeilad yn cael ei wneud i safon isel. Dywedodd fod WTI yn falch o'r prosiect a'r llwyddiannau a gafodd eu bodloni o ran iechyd a diogelwch ar y safle ac wrth ymgysylltu â'r gymuned leol. Byddai ymgysylltu â'r gymuned yn parhau a chynhaliwyd ffair swyddi diweddar yn swyddfeydd Cyngor Tref Cei Connah lle’r oedd dros 200 o bobl leol wedi mynegi diddordeb yn y swyddi gweithredol a fyddai ar gael ar ôl cwblhau cyfnod adeiladu Parc Adfer. Dengys yr ystadegau cyfredol fod rhwng 30% - 50% o'r gweithwyr yn lleol (yn dibynnu ar ba fesur), a chafodd yr ystadegyn hwn ei archwilio heb unrhyw her.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Aaron Shotton ar faint o weithwyr presennol oedd aelodau Undeb Llafur, ymatebodd Becky Bell nad oedd y wybodaeth hon ar gael gan na ofynnwyd y cwestiwn hwn i'r gweithwyr.

Eglurodd Paul Burton fod ei bryderon wedi bod yn gysylltiedig â chyfnod mecanyddol yr adeilad, sef y maes lle’r oedd ganddo brofiad angenrheidiol ond ei fod wedi anfon 3 CV heb dderbyn unrhyw ohebiaeth yn ôl. Ailadroddodd ei sylwadau hefyd ynghylch y ffaith nad oedd myfyrwyr Coleg Glannau Dyfrdwy yn cael y cyfle i gael profiad hyfforddi ar y safle. Dywedodd Stephen Butterworth y dylid defnyddio gweithwyr Ewropeaidd fel atodiad i weithwyr lleol, ac nid yn eu lle.

Dywedodd Hywel Jones (Ymgynghorydd), gan siarad ar ran Llywodraeth Cymru (LlC), nad oedd rhwymedigaeth i wneud cytundeb NAECI ac na roddwyd unrhyw ofyniad ar y Bartneriaeth gan Lywodraeth Cymru i nodi NAECI yn ystod y broses gaffael. Ers i'r broses gaffael ddod i ben, mae Llywodraeth Cymru wedi dod â chod ar waith ac maent ar hyn o bryd yn edrych ar sut mae Adfer Parc yn mesur i fyny i’r cod hwnnw ac unrhyw wersi y gellir eu dysgu. Ar hyn o bryd mae wyth prosiect tebyg ar draws Cymru ac nid oes yr un ohonynt wedi ymuno â NAECI. Byddai LlC yn cwrdd ag WTI yr wythnos

nesaf ac un o'r meysydd sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yw adolygiad o berfformiad yn erbyn darpariaethau buddion cymunedol y Llywodraeth yn y contract.

Dywedodd Colin Everett y byddai deialog barhaus rhwng y tîm prosiect a Chynrychiolwyr Undeb a bod yr opsiwn yn aros am ymweliad safle pellach ac i Gynrychiolwyr Undeb annerch cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol. Dywedodd bod y gost o reoli protestiadau i Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaethau Priffyrdd Cyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd ychydig llai na £82,000 hyd yn hyn. Nid oedd y lefel hon o brotest yn gynaliadwy. Nododd Colin Everett wrh yr Undebau os oes ganddynt unrhyw feysydd pryder penodol sy'n ymwneud ag arferion cyflogaeth neu arferion contractio, y dylent eu codi gyda WTI, CNIM neu'r Bartneriaeth a byddant yn cael eu hystyried yn syth.

Gofynnodd y Cynghorydd Aaron Shotton, yn wyneb y sylwadau a wnaed gan Gynrychiolwyr yr Undeb, am ymateb i'r Cyd-bwyllgor ynghylch a ellid cyflwyno NAECI ar hyn o bryd ac a fyddai unrhyw oblygiadau.

Dywedodd Colin Everett, yn wyneb y sylwadau a wnaed, bod y camau canlynol i'w cymryd yn dilyn y cyfarfod:-

1. Mwy o fanylion a sicrwydd ar recriwtio agored gan gynnwys ffeiriau swyddi (CNIM);
2. Adolygiad o berfformiad yn erbyn darpariaethau buddion cymunedol Llywodraeth y Cynulliad o fewn y contract;
3. Adolygiad ymarfer ymweliadau safle, a chynnig ymweliadau pellach (CNIM);
4. Darluniau o dâl ar sail anhysbys (CNIM);
5. Datganiad ar (1) ymarfer cymaradwy gan WTI / CNIM gyda darpariaethau NAECI a (2) y cyfleoedd a'r risgiau o symud tuag at / mabwysiadu NAECI gyda neu heb gytundeb y Bartneriaeth yn ôl yr angen (WTI).

Yn dilyn cwestiwn, cytunodd Colin Everett i ddarparu gwybodaeth i'r Cyd-bwyllgor am yr ymarfer cymaradwy gan WTI/CNIM gyda'r darpariaethau NAECI.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl fynychwyr allanol am eu presenoldeb a'u cyfraniad.

**PENDERFYNWYD:**

*(a) darparu mwy o fanylion a sicrwydd ar ofynion agored, gan gynnwys ffeiriau swyddi (CNIM);*

*(b) Y dylid cynnal adolygiad o berfformiad yn erbyn darpariaethau buddion cymunedol y Llywodraeth yn y contract (Steffan Owen, Hywel Jones a WTI);*


DRAFT

*(c) Adolygu'r ymweliadau safle hwnnw a chynnig ymweliadau pellach (CNIM);*

*(d) Darparu darluniau tâl ar sail anhysbys (CNIM); a*

*(e) Darparu Datganiadau ar (1) ymarfer cymaradwy gan WTI / CNIM gyda darpariaethau NAECI a (2) y cyfleoedd a'r risgiau o symud tuag at / mabwysiadu NAECI gyda neu heb gytundeb y Bartneriaeth yn ôl yr angen (WTI)*

**YN DILYN SEIBIANT O 10 MUNUD, AIL-GYNULLWYD Y CYFARFOD AM 4.15PM.**

9. **EITEM EITHRIEDIG: DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ADRAN 100A AC ATODLEN 12A (HAWL I WYBODAETH)**

**PENDERFYNWYD** *Bod y Cyhoedd a'r Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A y Ddeddf uchod, yn ystod ystyriaeth o'r eitem ganlynol gan ei bod yn ymwneud â datgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf a bod y broses contract yn dal ar y gweill ac y byddai'n cael ei niweidio drwy ei gwneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd.*

10. **ADRODDIAD GWASANAETHAU CLUDIANT A GORSAFOEDD TROSGLWYDDO GWASTRAFF**

Cyflwynodd Steffan Owen yr adroddiad i ddiweddaru'r Cyd-bwyllgor ar y cynnydd o ran datblygu gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Hefyd, rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ar y contract cludo partneriaeth.

Ymatebodd Colin Everett i gwestiwn a godwyd o ran costau cludo ac awgrymodd Steffan Owen y dylid darparu rhagor o wybodaeth i'r Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod nesaf yn gynnar ym mis Medi, 2018.

**PENDERFYNWYD:** *Nodi'r adroddiad.*

11. **CYLLID LLYWODRAETH CYMRU**

Cyflwynodd Steffan Owen yr adroddiad i hysbysu'r Cyd-bwyllgor o drafodaethau a oedd yn digwydd gyda Llywodraeth Cymru (LlC) ar bwnc cymorth grant ffioedd giât gan Lywodraeth Cymru ac yn benodol pryd fyddai cyllid Llywodraeth Cymru yn dechrau.

**PENDERFYNWYD:**

*(a) nodi'r adroddiad; a*



DRAFT

*(b) chefnogi'r achos a wnaed i Lywodraeth Cymru, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.*

12. **UNRHYW FATER ARALL**

Nid oes unryw fater arall i'w ystyried.

(Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm)

---

DRAFT

**EITEM AGENDA RHIF: 5**

**ADRODDIAD I:** **CYD-BWYLLGOR NWRWTP**

**DYDDIAD:** **31ain HYDREF 2018**

**ADRODDIAD GAN:** **RHEOLWR CONTRACT**

**TESTUN:** **ADRODDIAD CYNNYDD ADEILADU**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. I ddiweddaru'r Cydbwyllgor ar gynnydd ar adeiladu'r cyfleuster Parc Adfer

## 2. CEFNDIR

2.1. Cyrhaeddwyd y Cau Ariannol ar gaffael NWRWTP yng nghanol mis Rhagfyr 2016 a dyfarnwyd y contract yn ffurfiol i Wheelabrator Technologies Inc (WTI).

2.2. CNIM yw'r contractwr Caffael ac Adeiladu Peirianneg (EPC), a Clugston yw ei is-gontractwr Peirianneg Sifil. Mae CNIM a Clugston yn gontractwyr profiadol iawn yn y farchnad Troi Gwastraff yn Ynni (EfW). Ar ben hynny, mae ganddynt berthynas sefydledig, a’r Parc Adfer yw eu 10fed prosiect adeiladu EfW gyda'i gilydd.

2.3. Ceir Gweithdrefn Cydgysylltu ar gyfer adrodd am gynnydd yr adeiladwaith yn erbyn yr amserlen yn y Cytundeb Prosiect (PA). Er mwyn cydymffurfio â gofynion PA, cyflwynir Adroddiad Cynnydd Misol ffurfiol i'r awdurdod gan WTI. Cynhelir cyfarfodydd misol (Bwrdd Rheoli Contractau) gyda WTI a'u contractwyr i adrodd yn ffurfiol ar gynnydd, materion ar y safle ac unrhyw risgiau hysbys posibl i'r rhaglen.

2.4. Cynrychiolir NWRWTP ar y Bwrdd Rheoli Contractau (CMB) a bydd yr holl allbwn a thrafodaethau o'r CMB yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Swyddogion Technegol a'r Bwrdd Prosiect. Mae'r Rheolwr Contract hefyd yn mynychu'r cyfarfod Cynnydd Misol ar y safle rhwng y WTI a'r prif gontractwyr.

2.5. Yn ogystal â'r uchod, mae Rheolwr Contract yr awdurdod yn ymweld â'r safle yn wythnosol, er bod hyblygrwydd yn parhau i ymweld â'r safle ar adegau eraill pe bai'r angen yn codi.

## 3. YSTYRIAETHAU

Trosolwg a meysydd allweddol o gynnydd

3.1. Isod ceir crynodeb o gynnydd y gwaith o adeiladu Parc Adfer.

Cynnydd cyffredinol

3.2. Mae'r gwaith wedi parhau ar y ffocws ar y tanc dŵr tân a'r ystafell bwmpio, cladin yr adeiladau, ystafelloedd switshis, ardal weinyddol ac ardal storio Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA). Y prif ffocws ar y safle ym mis Medi oedd draenio'r safle, prif ffos dŵr tân a chladin y boeler.

3.3. Mae gwaith yn parhau ar y ganolfan ymwelwyr, gyda chyfarfodydd rhwng y Bartneriaeth a WTI yn cael eu trefnu ar gyfer mis Tachwedd ac yn mynd ymlaen i weithio ar fanylion megis negeseuon, sut i reoli ymweliadau grŵp ac ati.

3.4. At ei gilydd, bu'r cynnydd ar y safle yn dda heb unrhyw newidiadau i'r rhaglen.

Iechyd a Diogelwch

3.5. Mae'r cofnod Iechyd a Diogelwch ar y safle yn parhau'n hynod o dda. Cafwyd un digwyddiad Iechyd a Diogelwch (Riddor) ers dechrau'r gwaith adeiladu ym mis Ionawr 2017 gyda dros 650,000 o oriau gwaith wedi eu cwblhau ers hynny.

Cynllunio a Thrwydded

3.6. Fel y nodwyd yn flaenorol yn y Cydbwyllgor, gwnaed nifer o fân newidiadau i'r cynllunio a'r caniatâd, a gymeradwywyd gan y cyrff perthnasol. Disgwylir y bydd set bellach o welliannau nad ydynt yn berthnasol tuag at ddiwedd y gwaith adeiladu.

Risg i'r rhaglen

3.7 Mae asesiad WTI o'r risg gyffredinol i'r amserlen yn parhau'n isel.

3.8. Un maes a amlygwyd fel cyfrwng yw Cysylltiadau Diwydiannol, yn benodol yn gweithredu gan Undebau (gweler eitem 7 ar yr agenda (eitem Rhan 2), adroddiad ar wahân).

Dyddiadau allweddol a adroddwyd

3.9. Mae dyddiad Cychwyn Gwasanaeth Cynlluniedig WTI yn parhau i fod yn 14 Hydref 2019 ac mae'r Dyddiad Parodrwydd Cynlluniedig yn parhau i fod yn 21 Mai 2019. Mae'r Dyddiad Parodrwydd Cynlluniedig yn ddyddiad allweddol i'r awdurdodau gan mai dyma'r dyddiad pan fydd comisiynu Adfer Parc yn dechrau ac y bydd gwastraff gan yr awdurdodau yn dechrau mynd i'r cyfleuster. Dangosir dyddiadau allweddol eraill yn nhabl 2 isod:-

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad allweddol** | **Cyflawnwyd** |
|---|---|---|
| Cau Ariannol / Dyddiad Effeithiol | 15 Rhagfyr 2016 | |
| Caffael yr holl eitemau amser arwain hir yn gyflawn | 27 Mawrth 2018 | 31 Gorffennaf 2017 |
| Cychwyn Gwaith Cysylltu Grid gan DNO | 11 Ebrill 2018 | 4 Hydref 2017 |
| Gwaith dylunio yn gyflawn | 7 Awst 2019 | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwaith cloddio byncer a gwaith concrid wedi'i gwblhau | 8 Hydref 2018 | |
| Trosglwyddo'r safle o Clugston i CNIM wedi'i gwblhau | 28 Mehefin 2019 | 4 Rhagfyr 2017 |
| Eitemau amser arwain hir i gyd ar y safle | 27 Medi 2018 | |
| Eitemau amser arwain hir wedi'u gosod | 31 Rhagfyr 2018 | |
| Prawf pwysau boeler | 2 Awst 2018 | |
| Prawf Cyswllt Grid G59 / Cwblhau gan SPEN | 22 Awst 2018 | |
| Cychwyn hyfforddiant staff Contractwyr O&M | 18 Mawrth 2019 | |
| Cyhoeddi'r Dystysgrif Cwblhau Adeiladu | 21 Mai 2019 | |
| Cyhoeddi Tystysgrif Prawf Parodrwydd | 21 Mai 2019 | |
| Cyhoeddi Tystysgrif Prawf Derbyn | 14 Hydref 2019 | |
| Cychwyn Gwasanaeth Cynlluniedig | 14 Hydref 2019 | |
| Dyddiad Cwblhau Stop Pell Contractwr EPC | 14 Hydref 2020 | |
| Dyddiad Stop Pell Cytundeb Credyd | 15 Ionawr 2021 | |

3.10. Er mai'r dyddiad uchod yw'r rhaglen a adroddir yn swyddogol, yr arwyddion gan y contractwyr ar y safle yw eu bod ychydig cyn yr amserlen. Mae hyn yn cael ei fonitro'n barhaus gan Reolwr y Cytundeb a'i adrodd i'r awdurdodau partner

## 4. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:-

4.8. Nod cynnwys yr adroddiad hwn.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.8. Mae goblygiadau ariannol y contract eisoes wedi bod trwy broses gymeradwyo ym mhob awdurdod partner.

## 6. EFFAITH GWRTH-DLODI

6.8. Amherthnasol.

## 7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

7.8. Mae goblygiadau amgylcheddol y contract eisoes wedi bod trwy broses gymeradwyo ym mhob awdurdod partner.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.8. Amherthnasol.

**9. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

9.8. Amherthnasol.

**10. ANGEN YMGYNGHORIAD**

10.8. Fel y nodir yn yr adroddiad.

**11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL**

11.8. Amherthnasol.

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen – Rheolwr Prosiect NWRWTP

**EITEM AGENDA RHIF: 6**

**ADRODDIAD I:** **CYD-BWYLLGOR NWRWTP**

**DYDDIAD:** **31ain HYDREF 2018**

**ADRODDIAD GAN:** **RHEOLWR CONTRACT**

**TESTUN:** **ADRODDIAD CYNLLUNIO ADNODDAU A CHOMISIYNU**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. I ddiweddaru'r Cydbwyllgor ar y broses o gyflwyno adnoddau ychwanegol i'r Tīm Rheoli Contract ar gyfer NWRWTP.

1.2. I ddiweddaru'r Cydbwyllgor o ran y cynnydd ar y gwaith o gynllunio ar gyfer dechrau Comisiynu Parc Adfer pan fydd gwastraff yr awdurdodau yn dechrau mynd i mewn i'r cyfleuster.

## 2. CEFNDIR

2.1. Cydnabuwyd ers amser maith a chytunwyd y byddai angen adnoddau ychwanegol at adnoddau'r awdurdod arweiniol ar gyfer rheoli'r contract Parc Adfer. Mae angen hyn ar gyfer ffrydiau gwaith megis monitro perfformiad contract, swyddogaethau gweinyddol, anfonebu, ariannol a chyfrifo.

2.2. Mae'r Cyd-bwyllgor hwn wedi derbyn diweddariadau blaneorol am adnoddau'r Tîm Rheoli Contractau fel bo'r angen.

2.3. Fel y dywedwyd yn flaenorol wrth y Cydbwyllgor, bu'n fwriad i ddarparu hyfforddiant i swyddogion awdurdodau partner allweddol ar agweddau allweddol y contract a rheoli contractau. Mae'r hyfforddiant hwn bellach wedi digwydd, a manylir arno yn 3.1 isod.

## 3. YSTYRIAETHAU

Hyfforddiant Rheoli Contractau

3.1. Cynhaliwyd yr Hyfforddiant Rheoli Contractau dros ddau ddiwrnod ym mis Medi 2018, a darparwyd gan Bartneriaethau Lleol ar ran Llywodraeth Cymru. Ymhlith y prif feysydd a gwmpesir gan y cwrs roedd:-

- Deall y Mecanwaith Talu a'r model Achos Sylfaenol
- Rheoli Perthnasau Contract
- Rheoli Dogfennaeth Contract a chadw cofnodion ar gyfer Archwilio
- Rheoli sgyrsiau a thrafodaethau anodd
- Rheoli Risg
- Monitro KPI a chymhwyso'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn effeithiol

- Newid Contractwr / Awdurdod a nodi arbedion
- Rheoli Gwybodaeth

3.2. Mynychwyd y cwrs yn dda gan swyddogion o bob awdurdod partner o wahanol rolau, gan gynnwys rheolwyr gwastraff (technegol), cyllid, archwilio a chyfreithiol. Amlygodd yr hyfforddiant bwysigrwydd adnoddau'r swyddogaeth rheoli contractau o fewn yr awdurdod arweiniol.

Hyfforddiant ariannol

3.3. Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, ymgysylltodd y Bartneriaeth â chynghorwyr ariannol Grant Thornton i greu 2 fodel ariannol i'r awdurdodau partner sy'n dyblygu'r prif Fecanwaith Talu ac amserlen dalu'r IAA. Bydd hyn yn gymorth mawr i'r awdurdodau i reoli'r llif taliadau misol a blynyddol, sy'n gymhleth ac yn fawr, o gofio'r tunelli sy'n cael eu trin.

3.4. Bydd Cyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol yn talu'n fisol i WTI ond byddant yn adennill yr hyn y maent yn ei dalu allan minws eu cyfran nhw eu hunain o fewn amserlen sy'n sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael allan o boced o ganlyniad i dalu anfonebau misol WTI. Yn ogystal â'r uchod, bydd cyfraniad refeniw LIC yn cael ei ddarparu i Gyngor Sir y Fflint bob chwarter, a fydd yn ei dro angen trosglwyddo hynny yn y cyfrannau cywir i'r awdurdodau partneriaid. Bydd proses gysoni hefyd yn flynyddol rhwng Sir y Fflint a WTI a hefyd rhwng yr awdurdodau Partner.

3.5. I gyd-fynd â'r modelau eu hunain, cwblhaodd Grant Thornton hyfforddiant 3 diwrnod ar gyfer Swyddogion Cyllid awdurdodau partner yn gynnar yn 2018. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref 2018, mae Grant Thornton a'r Rheolwr Contract wedi cynnal sesiynau gyda phob awdurdod partner yn unigol i redeg drwy'r model ariannol. Mynychwyd y sesiynau hyn gan y swyddogion technegol (gwastraff) a swyddogion cyllid ac roedd ganddynt ddau brif nod. Yn gyntaf, aethpwyd trwy'r model ariannol yn fanwl gyda'r swyddogion er mwyn iddynt allu ei ddefnyddio at ddibenion cynllunio ariannol. Yn ail, er mwyn i'r awdurdodau wneud pa drefniadau mewnol sydd eu hangen i baratoi ar gyfer llif taliadau pan gomisiynir yn cychwyn. Mae trafodaeth fewnol rhwng swyddogion technegol a chyllid yr awdurdod partner bellach ar y gweill i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithlon o brosesu llif taliadau o fewn terfynau amser talu.

Adnoddau y Tîm Rheoli Contract

3.6. Adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor o'r blaen y bydd angen adnoddau ychwanegol i gyd-fynd â'r Rheolwr Contract ar yr adeg briodol. Fel y nodwyd uchod, mae hyfforddi Hyfforddiant Partneriaethau Lleol yn cefnogi hyn ymhellach.

3.7. Mae Sir y Fflint, fel yr awdurdod arweiniol, wedi cymryd yr ymagwedd bod yr adnoddau ar gyfer y swyddogaeth Rheoli Contract yn cael ei wneud o fewn y swyddogaethau Gwasanaethau Strydoedd a Chyllid presennol. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cael ei lledaenu ymhlith swyddogion ac yn caniatáu gwytnwch i ymdrin ag absenoldeb staff allweddol unwaith y bydd y cyfleuster yn weithredol.

Cyllid

3.8. Cyllid - Daeth yn amlwg o'r trafodaethau uchod a hefyd o adborth uniongyrchol o sesiynau hyfforddi Swyddogion Cyllid bod rôl Cyllid y contract Parc Adfer yn un hanfodol. Mae'n amlwg bod angen gosod y rôl hon o leiaf ar lefel cyfrifydd oherwydd lefel y cyfrifoldeb (llif o symiau mawr o arian) a chymhlethdod cysylltiedig.

3.9. Ar hyn o bryd, mae Sir y Fflint yn cael ei ailstrwythuro o ran eu swyddogaeth Cyllid sydd ar lefel ddatblygedig, ac ar hyn o bryd mae'n mynd trwy ymgynghoriad a bydd yn ei le yn fuan.

3.10. Mae'r Rheolwr Contract hefyd wedi cytuno gyda'r Rheolwr Cyllid Amgylchedd y diwellir unrhyw hyfforddiant pellach yn ôl yr angen gan ddefnyddio ymgynghorwyr ariannol.

Technegol a Gweinyddol

3.11. Mae dau ofyniad adnoddau arall wedi'u nodi ar gyfer swyddogaeth Rheoli Contractau, sef rôl "dechnegol" a swyddogaeth weinyddol. Bydd y swyddogaeth weinyddol yn cael ei gwneud o fewn tîm gweinyddol Gwasanaethau Strydoedd yn Sir y Fflint yn ôl yr angen. Bydd y gofyniad hwn yn dechrau cynyddu wrth i gomisiynu ddod yn agosach.

3.12. Mewn perthynas â'r rôl dechnegol, mae angen y rôl hon i agweddau hanfodol o'r swyddogaeth Rheoli Contractau ar gyfer ffrydiau gwaith megis monitro dangosyddion perfformiad contract allweddol (mae rhai o'r rhain yn cynnwys didyniadau ar gyfer y contractwr felly mae'n rôl allweddol), monitro a chraffu ar dystiolaeth a ddarperir gan y contractwr a chyswllt cyffredinol o ddydd i ddydd gyda'r contractwr ar faterion gweithredol.

3.13. Mae'r adnodd technegol ar gyfer y swyddogaeth Rheoli Contractau yn cael ei gynnwys yn swyddogaeth ehangach Gwasanaethau Strydoedd Sir y Fflint. Mynychodd dau unigolyn o fewn y tîm Gwasanaethau Strydoedd yr Hyfforddiant Rheoli Contractau a nodir uchod ac maent wedi dechrau ymgyfarwyddo â'r contract. Mae cael mwy nag un unigolyn yn gyfarwydd â'r contract yn sicrhau'r gwytnwch a ddisgrifir uchod. Dechreuodd y gwaith ar baratoi rhai o'r dogfennau a'r offer sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau a amlinellir yn 3.12 uchod.

3.14. Adroddir ar y cynnydd ar yr adnoddau uchod i'r Bwrdd Prosiect wrth arwain i fyny at Gomisiynu.

Gwaith paratoi arall

3.15. Yn ogystal â'r gwaith a amlygwyd uchod, bu'r Rheolwr Contract ynghyd ag aelodau o dîm Cyllid yr Amgylchedd Sir y Fflint yn mynychu cyfarfod gyda chynrychiolwyr cyllid WTI i ddechrau gweithio ar gytuno ar y wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod llif y taliadau'n digwydd mor esmwyth ag y bo modd. Agwedd allweddol yw cytuno ar lefel y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarperir gan WTI i gyd-fynd â'u hanfonebau a sicrhau bod y gwiriadau a'r balansau cywir yn eu lle ar gyfer cymeradwyo anfonebau i'w talu. Bydd y cyfarfodydd hyn yn dod yn gyfarfodydd rheolaidd yn y dyfodol yn ôl yr angen, gyda chyfarfod arall wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad

**5. GOBLYGIADAU ADNODDAU**

**5.1.** Hyfforddiant LP / LIC - Dim. Ariannwyd yr hyfforddiant gan LIC.

5.2. Mae goblygiadau ariannol y Tīm Rheoli Contractau wedi'u cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn flaenorol.

**6. EFFAITH GWRTH-DLODI**
Amh.

**7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**
Amh.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**
Amh.

**9. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

Fel y nodir yng nghorff yr adroddiad hwn

**10. ANGEN YMGYNGHORIAD**
Dim.

**11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL**

Fel y nodir yn yr adroddiad.

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen
Rheolwr Prosiect
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk

**Ymatebion i gamau gweithredu o gyfarfod y Cydbwyllgor ar 21 Mehefin 2018**

Yn dilyn presenoldeb undebau'r GMB ac Unite yn y Cydbwyllgor ar 21 Mehefin, gweler isod y camau a gytunwyd yn y cyfarfod hwnnw a'r ymatebion iddynt.

1. Mwy o fanylion a sicrwydd ar recriwtio agored gan gynnwys ffeiriau swyddi (CNIM);

2. Adolygiad o berfformiad yn erbyn darpariaethau buddion cymunedol Llywodraeth y Cynulliad o fewn y contract;

3. Adolygiad ymarfer ymweliadau safle, a chynnig ymweliadau pellach (CNIM);

4. Darluniau o dâl ar sail anhysbys (CNIM);

5. Datganiad ar (1) ymarfer cymar adwy gan WTI / CNIM gyda darpariaethau NAECI a (2) y cyfleoedd a'r risgiau o symud tuag at / mabwysiadu NAECI gyda neu heb gytundeb y Bartneriaeth yn ôl yr angen (WTI).

**Gweithred 1 – Mwy o fanylion a sicrwydd ar recriwtio agored gan gynnwys ffeiriau swyddi (CNIM). Isod ceir ymateb CNIM:-**
*Fel rhan o'i broses recriwtio ar gyfer y prosiect, mae CNIM yn rhedeg ffeiriau gwaith i roi ceiswyr gwaith mewn cysylltiad â chontractwyr ac asiantaethau. Mae'r digwyddiadau yn fforwm i CNIM ymgysylltu â'r gymuned leol yn ogystal â darparu gwybodaeth ar sut y gall pobl gofrestru diddordeb mewn cyfleoedd cyflogaeth posibl. Gofynna CNIM os oes swydd wag yn codi, bod ei holl isgontractwyr yn rhoi cyfle cyfartal i unrhyw unigolyn sydd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio ar y prosiect. Nid oes unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani sy'n ymwneud ag aelodaeth undeb llafur ar unrhyw adeg yn y broses recriwtio. Felly, nid oes gan aelodaeth undeb llafur unrhyw ddylanwad ar gais unigolyn am waith. Rheolir y broses ymgeisio trwy wefan CNIM / CCL a'r blwch post a sefydlwyd ar gyfer y cyfnod adeiladu. Cydnabyddir pob cyflwyniad CV, a chynhwysir gwybodaeth am y broses. Cofnodir pob gohebiaeth mewn cofnod ymholiadau. Mae'r CVs wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r isgontractwr perthnasol. Dilynir yr un broses ar gyfer unrhyw CV a dderbynnir yn y ffeiriau swyddi. Tystiolaeth o hyn: mae Harris Pye, isgontractwr ar y safle ar hyn o bryd, yn gweithio'n uniongyrchol gyda CNIM i sefydlu gofynion llafur ac mae'n adolygu pob cyflwyniad CV priodol (oddeutu 40) i gefnogi'r broses hon. Gellir darparu diweddariadau yn ôl yr angen*.

**Gweithred 2 – Darpariaethau buddion cymunedol yn y contract**
Gweler dogfen ar wahân Atodiad 1

**Gweithred 3 – Adolygiad ymarfer ymweliadau safle, a chynnig ymweliadau pellach. Isod ceir ymateb CNIM:-**
*Cynigir a threfnir ymweliadau safle pellach trwy Becky Bell, Ymgynghorydd IR ar gyfer CNIM. Mae'r broses ymweld â'r safle eisoes wedi'i chytuno gyda'r undebau llafur ac nid oes gofyn i hyn newid. Mae'r ymweliadau'n para am ddwy awr ac fe'u trefnwyd i gyd-fynd â'r egwyl cinio er mwyn i bob gweithiwr gael y cyfle i gwrdd â'r undebau. Mae'r ystafell sefydlu yn darparu lle preifat ar gyfer cyfarfodydd a gall gweithwyr fynd i'r ystafell hon heb orfod mynd i mewn i'r maes lles, lle mae cynrychiolydd CNIM wedi ei leoli. Hysbysebir pob ymweliad safle ar y*

*hysbysfyrddau yn yr ardal les o flaen llaw. Gofynnwyd i GMB am ddyddiadau addas pellach.*

**Gweithred 4 - Darluniau o dâl ar sail anhysbys (CNIM)**
Codwyd y cyfraddau cyflog gan yr undebau lla fur a gofynnwyd i CNIM ystyried darparu cyfraddau anhysbys wedi'u categorei ddio yn ôl crefft, e r mwyn osgoi unrhyw sensitifrwydd masnachol.

Dyfynnir ymateb CNIM i hyn fel a ganlyn: - *'Nid yw CNIM yn cytuno i gyflawni'r cam hwn am y rhesymau canlynol - hyd yn oed os yw'r cyfraddau'n anhysbys, mae'r isgontractwyr ar y safle yn y parth cyhoeddus. Felly, gellir cyfateb contractwyr a chrefftau ac mae'r wybodaeth yn dod yn fasnachol sensitif. Nid oes gan CNIM unrhyw reolaeth na dylanwad ar sut y byddai'r wybodaeth yn cael ei defnyddio gan yr undebau llafur, er enghraifft mewn ymgyrch cyfryngau.'*

Mae CNIM wedi datgan eu bod yn barod i gyflwyno'r wybodaeth hon ar lafar i'r Cydbwyllgor.

**Gweithred 5 - Datganiad ar (1) ymarfer cymaradwy gan WTI / CNIM gyda darpariaethau NAECI a (2) y cyfleoedd a'r risgiau o symud tuag at / mabwysiadu NAECI gyda neu heb gytundeb y Bartneriaeth yn ôl yr angen. WTI sydd wedi darparu'r nodyn isod:**

(1) *Ceir cydymffurfiaeth lawn â holl ddeddfwriaeth statudol y DU, o safbwynt cyflogaeth a iechyd a diogelwch. Yn ogystal â hyn, mae CNIM wedi gweithredu Canllawiau Arfer Da, y mae'n rhaid i isgontractwyr gydymffurfio â hwy. Mae uwchlaw a thu hwnt i'r ddeddfwriaeth, sy'n gwahardd defnyddio contractau oriau sero, cwmnïau ambarél, hunan-gyflogaeth ffug a mwy nag un person fesul ystafell. Cynhelir archwiliadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn. Mae gwahanol ffyrdd i godi unrhyw bryderon gan weithwyr ar y safle, gan gynnwys pwyllgorau iechyd a diogelwch, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.*

*Crynodeb llinell uchaf yw hwn ac mae tabl cymhariaeth fanylach ynghlwm ar wahân yn Atodiad 2.*

(2) *Yn gyntaf, byddai angen i unrhyw randdeiliad prosiect sy'n ystyried mabwysiadu NAECI yn y Parc Adfer asesu cost, risg a chyfleoedd sylweddol. Ym marn WTI, nid yw NAECI yn cynnig 'cyfle' pendant o ran cyflwyno'r fanyleb a nodir yn y Cytundeb Prosiect. I asesu 'cost' a 'risg', byddai'n rhaid i bob isgontractwr perthnasol gyflwyno cynigion wedi'u costio. Dim ond ar ôl i barti contract gyhoeddi 'Hysbysiad Newid' ar eu bwriad i bwyso am newid i'r Cytundeb Prosiect y gallai hyn gychwyn. Byddai angen i'r Hysbysiad Newid gynnwys manylion y tybiaethau sy'n sail i'r cais, yn benodol o ran amseriad a maint cyflwyniad NAECI. Ym marn WTI, byddai'r broses hon yn cymryd mwy na'r amserlen sy'n weddill. Mae'n berthnasol nodi bod y prif becynnau gwaith eisoes wedi'u gosod, y contractau wedi'u llofnodi a bod y gwaith wedi cychwyn. Mae gan y gweithiau hynny nifer o gyd-ddibyniaethau cymhleth. Gan nad yw NAECI erioed wedi cael ei ddefnyddio ar gaffael cyhoeddus, heb sôn*

*am gymhwyso ôl-weithredol ar ddiwedd y gwaith adeiladu, nid oes cynsail ar gyfer proses o'r fath.*

*Nid yw'r anawsterau y byddai CNIM yn eu hwynebu wrth fabwysiadu NAECI yn hysbys, oherwydd y ffactorau canlynol y byddai'n rhaid eu hystyried:*

- *Ailnegodi contractau gyda'r cleient (WTI) a'r holl isgontractwyr*
- *Potensial ar gyfer hawliadau difrod - torri contract a chyflwyno'n hwyr*
- *Amser i ailnegodi contractau - gallai hyn gymryd misoedd lawer*
- *Effaith adnewyddu ar adeiladu - a yw gwaith yn dod i ben yn ystod yr ailnegodi?*
- *Canlyniad unrhyw stopio ar y safle - beth fyddai'r effaith ar y contract darparu gwasanaeth ar gyfer WTI a'r NWRWTP?*
- *I ailadrodd sefyllfa CNIM, ni chaiff NAECI ei fabwysiadu oni bai ei fod ar gyfarwyddyd WTI.*

*Mae datganiad ar wahân gan WTI ar fabwysiadu NAECI ynghlwm ar wahân yn Atodiad 3.*

<u>Risgiau i’r Bartneriaeth o fabwysiadu NAECI</u>

Er gwaethaf yr uchod, dylid nodi y byddai unrhyw newidiadau sy'n deillio o fabwysiadu NAECI yn cynnwys proses gymeradwyo ar gyfer y Bartneriaeth ar ben unrhyw newidiadau a negodiadau cytundebol gyda WTI. Byddai mabwysiadu NAECI yn golygu newidiadau a fyddai'n anochel yn faterion ar gyfer cymeradwyaethau Awdurdod Partner unigol. Fel y nodwyd gan y Prif Weithredwr yn y Cyd-bwyllgor, byddai'r broses hon yn cymryd misoedd lawer i'w chwblhau. Gwelir tystiolaeth o hyn o broses gaffael proses cymeradwyo'r Ymgeisydd a Ffefrir ym mhob awdurdod partner unigol, a gymerodd o leiaf 6 wythnos i baratoi a chymeradwyo adroddiadau manwl, safonol, cymeradwyaeth ar lefel y Bwrdd Prosiect a chyd-bwyllgor, ac yna 3 mis mewn cyfarfodydd cymeradwyo (Y Cyngor Llawn, Craffu a Chabinet ym mhob Awdurdod Partner) gyda 6 wythnos arall eto.

## NWRWTP Parc Adfer – Adolygiad Buddion Cymunedol – Gorffennaf/Awst 2018

Amlinella'r tablisod y broses adolygu gyda Partneriaethau Lleol o ddarpariaethau Buddion Cymunedol yng nghontract y Parc Adfer.

Allwedd:

PLl – Partneriaethau Lleol

HJ – Howel Jones (Partneriaethau Lleol)

MT – Mark Turner (Partneriaethau Lleol)

| Datganiadau Buddion Cymunedol made by Partnership/WTI | Ymholiadau PLl | Ymateb NWRWTP | Sylwadau pellach/ archwiliad statws PLl |
|---|---|---|---|
| Cymeradwyodd Cydbwyllgor Partneriaeth Gogledd Cymru gronfa o £180k y flwyddyn ar gyfer Buddion Cymunedol trwy gydol y tymor Contract 25 mlynedd gyda chyfraniadau gan bob un o'r pum awdurdod lleol. Mae cwmni gweithredu Wheelabrator wedi cytuno i gyfrannu £50k i'r gronfa, gan arwain at wario cyfanswm o £230k y flwyddyn ar Fuddion Cymunedol ar brosiectau lleol o fewn ardal y Bartneriaeth. | HJ y flwyddyn?<br><br>MT Pryd mae'n dechrau?<br><br>MT Sut mae hyn yn cael ei weinyddu a beth yw'r meini prawf / rheolaeth ar gyfer ystyried dyfarniad grant | Ie, mae hyn bob blwyddyn. £180k gan yr Awdurdodau a £50k gan WTI o ddechrau'r gweithrediadau.Ar hyn o bryd mae'r Bartneriaeth yn gweithio ar y meini prawf, cymhwyster ayb. Mae gan WTI gronfa o £50,000 ar wahân ar gyfer prosiectau cymunedol yn ystod y cyfnod adeiladu ond mae hyn yn gwbl wirfoddol i WTI. Gweithiodd y Bartneriaeth gyda WTI ar y meini prawf ayb i sicrhau nad oedd yn creu unrhyw gynsail amhriodol ar gyfer y brif gronfa. | Cronfa £50,000 yn ystod y gwaith adeiladu a weinyddir yn unig gan WTI - Cronfa 50% wedi ei wario ym mis Gorffennaf 2018, gyda 13 o brosiectau wedi'u hariannu.<br><br>Mae gan y Cyngor Sir y Fflint gysylltiad â gwefan WTI ar gyfer CF ond nid ar wefan Cyngor Sir y Fflint eto ar gyfer prif CF gan y bydd yn cael ei weinyddu ar ôl cychwyn y gwasanaeth |
| Fel y cadarnhawyd yn Achos Busnes Terfynol y Bartneriaeth, bydd Buddion Cymunedol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect yn cynnwys:<br><br>• Adeiladu canolfan ymwelwyr i'r cyhoedd lleol i ddeall y broses adennill ynni a'r | | | Dyluniad a chynnwys canolfan ymwelwyr yn cael eu cytuno ar hyn o bryd rhwng partneriaeth a WTI |

Tudalen 27

| Datganiadau Buddion Cymunedol made by Partnership/WTI | Ymholiadau PLI | Ymateb NWRWTP | Sylwadau pellach/ archwiliad statws PLI |
|---|---|---|---|
| rheolaethau allyriadau llym y maent yn glynu atynt; | | | |
| • Sefydlu Grwp Cyswllt Cymunedol; | HJ A yw hyn wedi'i wneud? Beth maent yn ei wneud a pha mor aml maent wedi cwrdd? Pwy sy'n mynychu?<br><br>MT A sut mae grŵp wedi'i ddewis, pwy sy'n rheoli ac a oes TORs? | Mae'r grŵp hwn yn cwrdd bob chwarter (dechreuodd ym mis Mawrth 2017). Mae ganddo TOR y mae'r grŵp wedi cytuno arno (gellir darparu os oes angen). Fe'i hwylusir gan WTI (cyfarfodydd ar y safle), ond mae'r grŵp yn dewis cadeirydd. Gweler https://wtiparcadfer.co.uk/cy/amgylchedd-a-manteision/community-liaison-group/# | Parhaus - cynhaliwyd 6 cyfarfod a'u cofnodi hyd yn hyn - mae WTI yn cadeirio ar hyn o bryd |
| • Gwybodaeth ar-lein sy'n hygyrch i'r cyhoedd; | HJ Yn ymwneud â beth?<br><br>MT Rhedeg gan bwy? A yw hyn ar waith - a allwn ni gael dolen i wybodaeth? | Ar hyn o bryd mae gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu, y CLG ayb ar wtiparcadfer.co.uk, ac mae papurau Cydbwyllgor ar wefannau awdurdodau unigol, fodd bynnag, byddwn yn datblygu tudalen benodol ar wefan Sir y Fflint ar gyfer y gronfa buddion cymunedol a gwybodaeth gefndirol partneriaeth ehangach yn barod ar gyfer pryd mae'r cyfleuster yn gwbl weithredol. | Gwefan WTI Parc Adfer. |
| • Cyfres o sesiynau briffio unigol ar gyfer cynrychiolwyr etholedig lleol o gynghorau sir a thref; | HJ Beth sydd wedi digwydd? | Mae'r Bartneriaeth a'r WTI eu hunain wedi mynychu cyfarfodydd cyngor tref / cymuned lleol (Cyngor Tref Cei Connah) trwy gydol y broses gaffael, cynllunio ac adeiladu (Partneriaeth yn fwy yn ystod cyfnodau caffael a chynllunio. Mae amryw | |

| Datganiadau Buddion Cymunedol made by Partnership/WTI | Ymholiadau PLI | Ymateb NWRWTP | Sylwadau pellach/ archwiliad statws PLI |
|---|---|---|---|
| | | o grwpiau ac unigolion (e.e. swyddogion etholedig, grwpiau cymunedol ayb) wedi ymweld â'r safle yn ystod y gwaith adeiladu. | |
| • Ymgysylltu â fforymau busnes yng Ngogledd Cymru megis y CBI, DIP, y DEZ a thimau datblygu economaidd cynghorau Partneriaeth; a | HJ Gyda golwg ar beth? | Y pwrpas yw ymgysylltu â chymdogion Parc Adfer ar DIP i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth lawn am Parc Adfer ond hefyd i chwarae rhan ehangach yn y gymuned fusnes leol. Mae hefyd yn agor llwybrau ar gyfer trafodaethau am gyfleoedd posibl yn y dyfodol. | A yw ymgysylltiad yn anffurfiol felly, ac a oes unrhyw beth wedi digwydd neu sy'n digwydd o ganlyniad?<br><br>Ymateb: - Mae'r digwyddiadau CBI a Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy yn gyfleoedd rhwydweithio, ac enghreifftiau yw: -<br><br>• Cyfrannu barn ar fargen twf Gogledd Cymru;<br>• Trafod syniadau ar gyfer cyflenwi gwres mewn cyfleusterau storio data;<br>• Gwneud cysylltiadau ag ymgynghorwyr sy’n cynnal astudiaeth ‘off-take’ gwres;<br>• Cysylltiadau â chyrff eraill megis elusennau, e.e. gydag elusen sy'n edrych ar gael cyn-garcharorion yn ôl ar eu traed |

| Datganiadau Buddion Cymunedol made by Partnership/WTI | Ymholiadau PLI | Ymateb NWRWTP | Sylwadau pellach/ archwiliad statws PLI |
| --- | --- | --- | --- |
| • Gwybodaeth ar-lein sy'n hygyrch i'r cyhoedd trwy wefan y prosiect, llinell gymorth rhadffôn, cyfeiriad e-bost a rhadbost. | HJ Rhannol ddyblygu gyda'r trydydd bwled? I ba raddau y cânt eu defnyddio? | Nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw un wedi defnyddio post rhad ac eithrio ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad ayb yn ystod ymgynghoriad caffael a chynllunio. Credir bod hyn yn annhebygol o gael ei ddefnyddio yn y dyfodol. | Gwefan prosiect WTI gan nad oes gwefan y Bartneriaeth - A yw defnydd a 'hits' yn cael eu monitro gan y bartneriaeth a beth os yw'r cyhoedd am gysylltu â'r bartneriaeth?<br><br>Nid yw ffigurau defnydd yn cael eu monitro ar hyn o bryd ond byddant yn gweithio gyda WTI i wneud hynny. |
| Bydd prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi yn cynnwys:<br>• Archwilio cyfleoedd prentis cymunedol; | HJ Pa gyfleoedd sydd wedi codi?<br><br>MT Beth sydd wedi'i wneud hyd yma a beth a gynlluniwyd? | Cafwyd trafodaeth gyda Choleg Cambria ynghylch cyfleoedd prentisiaid ar gyfer y cyfnod gweithredol. | Angen unrhyw gamau a chanlyniadau.<br><br>Caiff hyn ei ddatblygu a'i olrhain yn ystod y cyfnod gweithredol. |
| • Datblygu cysylltiadau â darparwyr addysg lleol - megis Coleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr; ac | MT A beth sydd wedi'i wneud a'i gyflawni hyd yma beth a gynlluniwyd?<br><br>HJ Pa gysylltiadau sydd wedi'u ffurfio, a beth yw deilliannau'r rhain? | Gweler yr ymateb uchod. Yn ogystal, mae WTI wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau megis ffeiriau swyddi yng Ngholeg Cambria, a gwahoddiadau i fyfyrwyr Coleg Cambria ymweld â nhw. | Angen unrhyw gamau a chanlyniadau<br><br>Gweler adroddiad ar wahân gan WTI - Atodiad 1b. |
| • Uwch-sgilio gweithwyr a recriwtir yn lleol trwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi ar draws gweithrediad byd-eang Wheelabrator | MT Neu yn lleol ar weithrediadau Parc Adfer?<br><br>HJ Beth, os oes unrhyw beth wedi'i ddarparu hyd yn hyn? | Angen rhagor o wybodaeth | Angen unrhyw gamau a chanlyniadau<br><br>Gweler adroddiad ar wahân gan WTI - Atodiad 1b. |

| Datganiadau Buddion Cymunedol made by Partnership/WTI | Ymholiadau PLI | Ymateb NWRWTP | Sylwadau pellach/ archwiliad statws PLI |
|---|---|---|---|
| | Pa gyfleoedd sy'n debygol o godi yn y dyfodol? | | |
| Bydd cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol wrth adeiladu a gweithredu'r cyfleuster yn cynnwys:<br>• Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau "Cwrdd â'r Prynwr" yn 2016, gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Rhoddodd y digwyddiadau gyfle i fusnesau ledled Cymru ymgysylltu â gwerth £14 miliwn o gontractau cyflenwi Parc Adfer. Cyfarfu mwy na 225 o fusnesau lleol (gan gynnwys un rhan o dair o Ogledd Cymru) â datblygwr a gweithredwr Wheelabrator yn ogystal â'i ddau gontractwr arweiniol - Grŵp CNIM, ei gontractwr EPC (Adeiladu Caffael Peirianneg) a Clugston Construction, sy'n arwain y gwaith peirianneg sifil. | MT Beth yw maint y cyfleoedd busnes a oedd yn berthnasol i fusnesau yng Nghymru? | O ran adeiladu, oherwydd yr agosrwydd i ffin Lloegr mae'n anodd amcangyfrif cyfleoedd Cymreig yn unig. Fodd bynnag, mae WTI yn cadw rhestr o fusnesau 'lleol' (o fewn radiws 30 milltir) sydd â thua 70 o gwmnïau arno yn darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau.Gweler adroddiad budd cymunedol arall gan WTI. | Angen gwybodaeth WTI<br><br>Gweler adroddiad ar wahân gan WTI - Atodiad 1b. |
| • Hyd at 300 o swyddi ar frig y gweithgaredd adeiladu; | MT Faint o 'bobl leol' a gyflogir yn awr a thros yr adeiladu? | Fel y trafodwyd yn y Cydbwyllgor, mae'r nifer o 'bobl leol' a gyflogir (o fewn radiws 30 milltir) wedi amrywio yn ystod yr adeiladu unrhyw le o 30% i 50%. Mae'r amcangyfrifon cyfredol tua 30%. | 30% oedd y ffigwr diweddar gan archwiliad mewnol y Cyngor Sir y Fflint.<br><br>Gweler yr adroddiad ar wahân - Atodiad 1b ac Atodiad 1c. |
| • 35 o swyddi llawn amser mewn gweithredu | MT Unrhyw deimlad am ganran cyflogaeth 'lleol'? | Ddim eto. Mae WTI wedi cynnal ffair swyddi gan dderbyn adborth cadarnhaol, ond mae WTI wedi datgan ei bod hi'n rhy | I'w fonitro a'i adrodd |

| Datganiadau Buddion Cymunedol made by Partnership/WTI | Ymholiadau PLI | Ymateb NWRWTP | Sylwadau pellach/ archwiliad statws PLI |
|---|---|---|---|
| | | gynnar i gael syniad am hyn gan mai dim ond 1 Aelod o'r tîm gweithrediadau sydd wedi eu penodi hyd yma (mae Rheolwr Gwaith newydd ddechrau). | Gweler yr adroddiad ar wahân - Atodiad 1b ac Atodiad 1c. |
| • Darparu deunydd gan gyflenwyr lleol lle bo modd; a | MT A oes gennym werth amcangyfrifedig<br><br>HJ Enghreifftiau penodol o'r rhain hyd yn hyn? | WTI i ddarparu amcangyfrif ond mae un enghraifft o ddeunydd lleol yw cladio gan Tata Steel (drws nesaf), ac un enghraifft nad yw'n eithaf lleol ond o fewn y Bartneriaeth yw lloriau llechi ar gyfer y dderbynfa o Chwarel Penrhyn yng Ngwynedd. | Defnyddiol - Byddai unrhyw enghreifftiau a gwerth arall yn ddefnyddiol.<br><br>Gweler adroddiad ar wahân gan WTI a rhestr o gyflenwyr lleol. |
| Effaith ymledol y gadwyn gyflenwi leol yn ystod y cyfnod adeiladu tair blynedd a thrwy gydol 25 mlynedd o weithredu. | MT A allwn ni ddweud pa fuddion a allai fod wedi cronni i'r gymuned leol e.e. llety anghenion byw cyffredinol, bwyd a diod, glanhau, cwmnïau llogi, cludiant, ayb<br><br>HJ Unrhyw gyfleoedd penodol? | Gweler yr ymateb uchod yngh: cwmnïau lleol hyd yn hyn, ond mae WTI yn gyffredinol wedi amcangyfrif gwerth o £4m i'r economi leol hyd yn hyn | Unrhyw enghreifftiau a gwerth, os gwelwch yn dda?<br><br>Gweler yr ymateb uchod ac adroddiad ar wahân a rhestr o gyflenwyr lleol. |

Tudalen 31

**Detholiad o'r FBC Cymeradwy wedi'i ddiweddaru 27 Tachwedd 2015 Adran 4.5 (yn debyg iawn i'r uchod)**

## *1.1 Buddion Cymunedol*

*1.1.1 Mae pwnc budd cymunedol wedi bod yn rhan annatod o broses y bartneriaeth, gyda thrafodaethau penodol ar lefel y Bwrdd Prosiect a chydbwyllgor. Nid yw'n anarferol cyflwyno Cynlluniau Buddion Cymunedol (CBS) ar y cyd â datblygiadau mawr iawn, e.e. cynlluniau ynni adnewyddadwy, prif*

*bibellau neu welliannau priffyrdd, prosiect gwastraff mawr ayb. Mewn rhai achosion mae'r CBS hyn yn cael eu cynnwys dan gytundeb cynllunio adran 106; mewn eraill, mae'r budd yn cael ei ddarparu gan y datblygwr neu drwy gronfa a gyflwynir yn wirfoddol gan y datblygwyr. Ym mhob un o'r amgylchiadau hynny, ni chynigir y CBS fel iawndal am ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo, ac nid yw ychwaith yn awgrymu bod y datblygiad yn cael effaith andwyol ar y cymunedau hynny. Dim ond cydnabod y gofynnir i un ardal neu gymuned gynnal datblygiad sy'n gwasanaethu dalgylch llawer ehangach.*

*4.5.2 Yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar 29 Ionawr 2014, cymeradwyodd y Cydbwyllgor ffigwr o £180k y flwyddyn ar gyfer Buddion Cymunedol drwy gydol y cyfnod y Contract. Cytunwyd ar y ffigwr hwn ar y sail:-*

*1.1.1.1 Roedd Prosiect Gwyrdd newydd gytuno ar becyn Buddion Cymunedol o £50k y flwyddyn (gan nodi bod hwn ar gyfer cyfleuster masnachol sy'n gweithredu ar safle preifat). Dangosodd ymchwiliadau bod y ffigwr hwn wedi'i ddefnyddio mewn prosiectau eraill hefyd, felly roeddent yn cynrychioli dull safonol;*

*1.1.1.2 Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu'r safle heb gost rhent i'r Prosiect yn ystod tymor y Contract.Ystyriwyd bod dychweliad blynyddol o 10% ar werth amcangyfrifedig o £1.3m y safle (£130k y flwyddyn) yn ffigwr priodol i'w ddefnyddio wrth asesu cost cyfle i Gyngor Sir y Fflint beidio â chynhyrchu derbyniad cyfalaf ar unwaith (yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau ariannol presennol a osodir ar awdurdodau lleol yng Nghymru) a hefyd y posibilrwydd o golli swyddi ar y safle sy'n deillio ohono heb ei ddefnyddio ar gyfer mewnfuddsoddiad arall a allai gael ei ddarparu*

*1.1.1.3 Mae WTI wedi nodi y byddant yn cyfrannu £50k y flwyddyn i'r gronfa a amlinellir uchod. Golyga hyn y bydd cyfanswm y pecyn buddion cymunedol yn £230k y flwyddyn.*

*1.1.2 Cymeradwywyd y ffigwr pa £180k ymhellach gan yr awdurdodau partner unigol fel rhan o'u cymeradwyaeth i benodi WTI fel Cynigydd a Ffafrir.*

*1.1.3 Isod ceir crynodeb pellach o'r buddion cymunedol ehangach y bydd y contract a'r cyfleuster yn eu darparu:-*

***Cyfathrebu ac addysg gyda'r gymuned leol a'r gynulleidfa ehangach yng Ngogledd Cymru***

*1.1.3.1 Adeiladu canolfan ymwelwyr i'r cyhoedd lleol i ddeall y broses adennill ynni a'r rheolaethau allyriadau llym y maent yn glynu atynt;*

*1.1.3.2 Sefydlu Grwp Cyswllt Cymunedol;*

*1.1.3.3 Gwybodaeth ar-lein sy'n hygyrch i'r cyhoedd;*

*1.1.3.4 Cyfres o sesiynau briffio unigol ar gyfer cynrychiolwyr etholedig lleol o gynghorau sir a thref;*

*1.1.3.5 Ymgysylltu â fforymau busnes yng Ngogledd Cymru megis y CBI, DIP, y DEZ a thimau datblygu economaidd cyngor y Bartneriaeth; a*

*1.1.3.6 Gwybodaeth ar-lein sy'n hygyrch i'r cyhoedd trwy wefan y prosiect, llinell gymorth rhadffôn, cyfeiriad e-bost a rhadbost.*

***Prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi***

*1.1.3.7 Archwilio cyfleoedd prentis cymunedol;*

*1.1.3.8 Datblygu cysylltiadau â darparwyr addysg lleol - megis Coleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr; ac*

*Uwch-sgilio gweithwyr a recriwtir yn lleol trwy ddarparu cyfle hyfforddi ar draws gweithrediad byd-eang WTI*

***Cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu'r cyfleuster***

*1.1.3.9 Mae digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr yn Chw / Chw4 2015 yn rhoi cyfle i fusnesau ledled Cymru ddarganfod mwy am gontractwyr cyflenwi ar Parc Adfer;*

*1.1.3.10 Hyd at 300 o swyddi ar frig y gweithgaredd adeiladu;*

*1.1.3.11 35 o swyddi llawn amser wrth weithredu;*

*1.1.3.12 Darparu deunydd gan gyflenwyr lleol lle bo modd; a*

*1.1.3.13 Effaith ymledol y gadwyn gyflenwi leol yn ystod y cyfnod adeiladu tair blynedd a thrwy gydol 25 mlynedd o weithredu.*

1.1.4 *Mae WTI wedi hysbysu'r bartneriaeth y byddant yn cynnal astudiaeth Buddion Economaidd fel un o lawer o asesiadau a fydd yn ffurfio pennod economaidd gymdeithasol eu cais cynllunio. Disgwylir y canlyniadau o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.*

**Cyflwyniad**

Mae Parc Adfer Wheelabrator, fel rhan o'r Cytundeb Prosiect gyda Chyngor Sir y Fflint ('yr Awdurdod'), yn ceisio mwyafu’r budd lleol o'r prosiect. Gweler fframwaith eang ar gyfer sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn Natganiad Dull Cynigion y Contractwr 7 (Cyswllt Rhanddeiliaid).

Er mai'r prif ffocws ar gyfer Datganiad Dull 7 yw'r cam gweithredol, mae llawer o'r prif ymrwymiadau wedi'u datblygu ac fe'u crynhoir yma dan y penawdau canlynol:

- Effaith Economaidd
  - Cyflenwi Adeiladu
  - Cronfa Buddion Cymunedol
- Cyflogaeth
- Ymgysylltu â'r Gymuned
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Eraill
- Gweithgaredd Cyfryngau

**Effaith Economaidd**

Ymrwymodd Parc Adfer Wheelabrator i fwyafu’r manteision economaidd posib y bydd yn dod â chymunedau lleol. I'r perwyl hwn cychwynnodd Wheelabrator ar nifer o fentrau gwahanol, wedi'u crynhoi'n fras fel a ganlyn:

Cyflenwi Adeiladu

Cyn dechrau'r gwaith adeiladu, cynhaliodd Parc Adfer Wheelabrator ddau ddigwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr', a fynychwyd yn dda gan gyflenwyr lleol. Roedd hyn yn caniatáu i gronfa ddata o gwmnïau lleol gael ei datblygu ac ers hynny gofynnwyd i gyflenwyr lleol ddarparu cynigion ar nifer o gontractau cyflenwi.

O ganlyniad, mae'r prosiect wedi gweithio gyda thua 60 o gyflenwyr lleol hyd yn hyn ac wedi darparu dros £4miliwn i fusnesau lleol, gan gyflenwi nwyddau a gwasanaethau mor amrywiol â deunyddiau cladin (Tata Steel, Glannau Dyfrdwy) a darnau fideo drôn (M7, Glannau Dyfrdwy). Rhoddir diweddariad ar y defnydd o gyflenwyr lleol i'r Grŵp Cyswllt Cymunedol ym mhob cyfarfod.


Yn ogystal, mae Wheelabrator wedi dod yn aelod gweithgar o Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy a changen Gogledd Cymru o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain.

Cronfa Buddion Cymunedol

Mae Parc Adfer Wheelabrator wedi ffurfio Cronfa Buddion Cymunedol ac wedi ymrwymo £50,000 o arian i sefydliadau a all roi budd i Ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy yn ystod y cyfnod adeiladu.

I fod yn gymwys, dylai buddion o'r fath gynnwys:

- Buddion amgylcheddol, er enghraifft hyrwyddo ynni glân, lleihau gwastraff a / neu wella ailgylchu
- Gwell safonau iechyd, diogelwch a llesiant
- Gwella'r gymuned ehangach, gan gynnwys sgiliau a datblygiad addysgol
- Gwelliannau amgylcheddol a gweithgareddau sy'n gwella cydlyniant cymunedol




Lansiwyd y gronfa cam adeiladu hon ym mis Medi 2017 ac mae hyd yma wedi rhoi £17.7K, gan adael £32.3K pellach ar gyfer y cyfnod adeiladu sy'n weddill.

Adroddir ar weithgareddau'r gronfa i'r Awdurdod ac i'r Grŵp Cyswllt Cymunedol.

Yn ogystal, unwaith y bydd gweithrediadau'n cychwyn, bydd Cronfa Buddion Cymunedol newydd ar wahân o £230,000 ar gael i ymgeiswyr trwy gydol oes 25 mlynedd y cyfleuster. Bydd hyn yn cael ei ariannu ar y cyd gan yr awdurdodau partner a Wheelabrator.

**Cyflogaeth**

Hyd yma, mae Parc Adfer Wheelabrator wedi cynnal tair Ffair Swyddi:

1. 23 Mai 2017 Coleg Cambria - I chwilio am ymgeiswyr posibl ar gyfer cyflogaeth yn ystod cyfnod gwaith sifil y contract.
2. 22 Mai 2018 Coleg Cambria - I chwilio am ymgeiswyr posibl ar gyfer cyflogaeth yn ystod y prif gyfnod peirianneg y contract adeiladu

3. Cyngor Tref Cei Connah - Ceisio darpar ymgeiswyr ar gyfer gwaith llawn amser yn ystod y cyfnod gweithredol

Ym mhob achos, hysbysebwyd y digwyddiadau yn eang, gan gynnwys:




- Hysbysebion papur newydd
- Gwefan Parc Adfer Wheelabrator
- E-bost uniongyrchol i'r gronfa ddata o ymholiadau swyddi blaenorol
- Canolfan Byd Gwaith
- Posteri mewn lleoliadau dinesig
- Taflenni i swyddfeydd cyngor lleol a rhanddeiliaid eraill

Yn ogystal, roedd y digwyddiadau'n cynnwys rhagolygon rhanddeiliaid a chyfryngau cyn agor i'r cyhoedd.

Hyd yma, mae ymdrechion i chwilio am lafur lleol wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae cyflogaeth leol (radiws 30 milltir) wrth adeiladu ar y safle yn pendilio’n sylweddol wrth i'r gwahanol grefftau fynd a dod, ond fel arfer mae rhwng 30% a 60%. Cyfanswm y gweithlu ar y safle ar ddiwedd Mai 2018 oedd 209, sy'n golygu cyflogaeth leol yn fras rhwng 63 a 126 ar unrhyw un adeg.

## Ymgysylltu Cymunedol

### Grŵp Cysylltu Cymunedol (CLG)

Ffurfiwyd y CLG ar 9 Mawrth 2017 a chafodd dderbyniad da. Cynhaliwyd pum cyfarfod hyd yn hyn, sydd wedi cynnwys teithiau a chyflwyniadau safle. Mynychir y cyfarfodydd yn dda ac maent yn cynnwys:

- Cyngor Sir y Fflint;
- Cyngor Tref Cei Connah;
- Cyngor Tref Shotton;
- Cyngor Cymuned Sealand;
- Cyngor Plwyf Puddington a'r Cylch;
- Cymdeithas Preswylwyr Burton;
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymweliad â safle cyfleuster cyfeiriadol



Mae Wheelabrator wedi trefnu ymweliadau safle â'i gyfleusterau yn Ferrybridge i aelodau'r CLG ac mae ymweliad arall wedi'i gynllunio ar gyfer aelodau Cyngor Tref Cei Connah. Mae ymweliadau cyfleusterau cyfeiriadol yn ffordd wych o ddangos y dechnoleg yn uniongyrchol i randdeiliaid. Dywedodd nifer o ymwelwyr bod yr ymweliadau wedi eu troi o wrthwynebwyr ysgafn i gefnogwyr brwd wrth iddynt arsylwi ar y dechnoleg uniongyrchol a lefelau uchel o broffesiynoldeb sy'n gysylltiedig â rhedeg cyfleuster gwastraff-i-ynni modern.

Mae hefyd yn galluogi delio ag unrhyw gamdybiaethau neu bryderon am y cyfleuster ymhlith y mynychwyr trwy brofiad personol o sut mae cyfleuster tebyg yn gweithredu.

Canolfan Ymwelwyr

Bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn darparu'r canolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ac addysg ac mae'n adnodd blaenllaw i'r Awdurdod yn ystod oes y prosiect.




Mae'r Ganolfan Ymwelwyr yn y cyfnod dylunio ar hyn o bryd. Bu'r Awdurdod yn ymgysylltu’n weithredol i gyfrannu at y dyluniad a'r deunyddiau addysgol a fydd ar gael.

Sefydlwyd y prif gysyniad dylunio a bydd cam nesaf y gwaith yn canolbwyntio ar y gwaith manwl a'r deunyddiau ac arddangosfa addysg. Mae Parc Adfer Wheelabrator yn sicr y bydd y cyfleuster yn darparu adnodd gwerthfawr i'r gymuned i gynorthwyo

gyda gwaith addysgol ym maes gwastraff ac ailgylchu a rôl troi gwastraff yn ynni. Rydym yn awyddus i ddefnyddio cyflenwyr lleol i gwblhau'r dyluniad cyfleuster lle bo modd.

Mae'r prif ofynion dylunio, fel y'u nodir yn y Cytundeb Prosiect, eisoes wedi'u hymgorffori, yn benodol:

*1.32 Bydd y Contractwr yn cynnwys Canolfan Ymwelwyr o fewn y Cyfleuster.*

*1.33 Rhaid i'r Ganolfan Ymwelwyr:-*

*1.33.1 gael un mynedfa gynradd wedi'i threfnu fel y gellir rheoleiddio a monitro ymwelwyr a rheoli mynediad i'r Ganolfan Ymwelwyr;*
*1.33.2 yn cynnwys derbynfa gydag arddangosfeydd addysgol;*
*1.33.3 bod yn addas ar gyfer grwpiau (gan gynnwys seddi) i o hyd at 24 o bobl;*
*1.33.4 yn cynnwys mynediad i nifer priodol o doiledau ac o leiaf un cyfleuster toiled sy'n addas i'w ddefnyddio gan berson anabl;*
*1.33.5 yn cynnwys oriel wylio ddiogel dros ran o'r Cyfleuster;*
*1.33.6 yn cynnwys ardal ddarlithio sydd â chyfarpar a chymhorthion clyweledol (gan gynnwys system taflunydd, sgrin a chyfeiriad cyhoeddus);*
*1.33.7 yn cynnwys CCTV byw dewisadwy o rannau priodol o'r Cyfleuster i ddangos y gweithgaredd sy'n digwydd; a*
*1.33.8 gyda'r dodrefn a'r ffitiadau sydd eu hangen i ddarparu'r swyddogaethau yn 1.33.1 i 1.33.7 uchod.*

*1.34 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod gan Ganolfan yr Ymwelwyr system wresogi sy'n gallu cynnal yr ardal ddarlithio yn uwch na'r isafswm tymheredd gwresogi o 19 gradd Celsius pan fydd ymwelwyr yn bresennol.*
*1.35 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod gan y Ganolfan Ymwelwyr awyru mecanyddol neu naturiol priodol.*
*1.36 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod pob cyflenwad dŵr sy'n cael ei fwydo o danciau storio (heb ei ddylunio ar gyfer darpariaeth dŵr yfed) wedi'i labelu'n glir fel "nid yn ddŵr yfed" ac na chaiff ei leoli mewn ardaloedd lle mae gan ymwelwyr heb oruchwyliaeth fynediad.*
*1.37 Bydd y Contractwr yn darparu mannau parcio i ymwelwyr i alluogi 12 o geir neu 1 bws o ddim mwy na 14 medr o hyd i barcio o fewn ffiniau'r Safle.*

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Eraill

Yn ogystal â'r ymweliadau safle a drefnwyd ar gyfer aelodau'r CLG a'r Awdurdod, mae'r cyfleuster wedi derbyn nifer o randdeiliaid a rheoleiddwyr eraill ar gyfer sesiynau briffio a theithiau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyd-bwyllgor NWRWTP
- Cynrychiolwyr Gwasanaethau Strydoedd Cyngor Sir y Fflint, i arsylwi ar ymarfer Iechyd a Diogelwch
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Adran Gynllunio Cyngor Sir y Fflint
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Partneriaethau Lleol
- Dangerpoint
- Guto Bebb, AS
- Mark Tami, AS

## Ymholiadau a Chwynion

Mae Parc Adfer Wheelabrator yn defnyddio Polisi Cyfathrebu sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ymholiad a chwyn gael eu gweinyddu'n ganolog gan Brif Gontractwr CNIM yn ystod y cyfnod adeiladu. Ymatebir i bob ymholiad yn gyflym ac yn gwrtais.

Cafwyd diddordebau niferus mewn cyfleoedd cyflogaeth yn ogystal ag ymholiadau darpar cyflenwyr a nifer o geisiadau ad hoc amrywiol er gwybodaeth. Derbyniwyd dwy gŵyn:

- 19 Mehefin 2017 - cwyn am allyriadau llwch - adroddwyd bod cwmwl o lwch yn deillio o safle Parc Adfer Wheelabrator. Ymchwiliwyd i hyn gyda'r awdurdod lleol, a dderbyniodd y gŵyn gychwynnol, a lleolwyd y ffynhonnell mewn safle gwahanol i'r Dwyrain o Barc Adfer Wheelabrator.

- 17 Mai 2018 - cwyn am ddiogelwch i feicwyr y tu allan i'r brif fynedfa – cwynodd beiciwr nad oedd gyrwyr yn mynd i mewn i safle Parc Adfer Wheelabrator yn talu sylw priodol i arwyddion ffordd ac yr arweiniodd hyn at ddigwyddiad a fu bron yn ddamwain i’r beiciwr. O fewn 48 awr, cymerwyd y camau canlynol:
    - CNIM - Rhoddwyd sgwrs i holl staff y safle a chyflenwyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd talu sylw i ddefnyddwyr eraill y ffordd wrth y fynedfa.
    - Cyngor Sir y Fflint - Ail-baentio marciau ffyrdd cyffordd, gan ddangos blaenoriaeth.
    - UPM – Torri’r is-dyfiant o gwmpas y gyffordd ar dir UPM yn ôl i wella gweledadd.

- WTI - Rhoddwyd ymateb i'r achwynydd yn eu hysbysu bod y gŵyn wedi'i chymryd o ddifrif a bod y camau uchod wedi'u cymryd.

**Gweithgaredd Cyfryngau**

Mae gan Parc Adfer Wheelabrator raglen weithgar o ymgysylltu â chyfryngau a gweithgaredd cyfathrebu, a gynlluniwyd i hyrwyddo'r prosiect, gan gynnwys:

- Diweddariadau gwefan
- Datganiadau i'r wasg
- Grŵp Cyswllt Cymunedol
- Cylchlythyr cymunedol
- Pamffledi a thaflenni
- Cyfryngau lleol
- Ffeiriau swyddi
- Teithiau safle

Wheelabrator
PARC ADFER
Adennill Ynni Gogledd Cymru | Energy recovery for North Wales

# Parc Adfer Jobs Fair

## Thursday 21 June 2018

## Event Report

INTERNAL DOCUMENT

### Event overview

Wheelabrator Technologies held a Jobs Fair on Thursday 21 June 2018 at Connah's Quay Town Council offices to showcase the 30+ employment opportunities that will shortly become available at the Wheelabrator Parc Adfer Energy Recovery Facility, which is due to be fully operational in late 2019.

The event started at 9:00 with a preview for key stakeholders and the media. The public session ran from 10:30 to 16:30.

### Event promotion

- Invitations were sent out to approx. 125+ jobseekers who had previously registered interest in working for Wheelabrator Parc Adfer.
- Individual invitations were sent out to approx. 60+ stakeholders.
- An advertisement was placed in the local press.
- A press release was published to local media and was picked up by both the Chester Chronicle and the Daily Post North Wales.
- The project website also advertised this event.
- A pamphlet was available and shared with invited exhibitors, stakeholders and jobseekers, and flyers were posted in local town offices and social media pages.

### Exhibitors

#### Wheelabrator Technologies

*Wheelabrator Technologies is the second largest US waste-to-energy business, and is an industry leader in the conversion of everyday residential and business waste into clean energy. Wheelabrator currently has a platform of 26 strategically located assets across the US and UK —19 waste-to-energy facilities (three under construction), three waste fuel facilities as well as four ash monofills. We also recover metals for recycling at two advanced metals recovery systems and one central upgrade facility. Wheelabrator currently has an annual waste processing capacity of over 7.6 million tonnes (8.3 million tons), and a total combined electric generating capacity of 828 megawatts—enough energy to power more than 772,000 homes. Wheelabrator also recovers metals for recycling into commercial products. The company's vision To develop, deliver and realize the potential of clean energy speaks to Wheelabrator's ongoing commitment to the development of clean energy solutions for its customers and local communities. Wheelabrator is owned by Energy Capital Partners, an energy infrastructure-focused private equity firm. For more on Energy Capital Partners, please visit www.ecpartners.com. For more on Wheelabrator, please visit www.wtienergy.co.uk.*

**CNIM**

*CNIM is a leading European specialist for the design and construction of turnkey non-fossil thermal power plants for the treatment of waste with almost a thousand references across the world. For more information on CNIM visit [www.cnim.com](www.cnim.com).*

## Stakeholder engagement

Approx. 10 people attended the stakeholder preview. Attendees included:

- Councillors from Flintshire County Council, Connah's Quay Town Council, Shotton Town Council and Sealand Community Council
- Representatives from Flintshire County Council's Business Advice and North Wales Minerals and Waste Planning Service departments
- Representative from the Federation of Small Businesses North Wales
- Representative from Coleg Cambria's Employment Engagement department
- Member of the Parc Adfer Community Liaison Group

## Media engagement

Local media outlets were invited to attend the media preview during the stakeholder session, however, did not do so.

## Public engagement

- Approx. 30 people attended the public session, of which approx. 50% had already expressed an interest in opportunities at the new facility through direct contact.
- Jobseekers attending included those looking for Shift Team Leader, Electrical Technician, Mechanical Technician and Operator roles.

## Union engagement

GMB and Unite trade union representatives were invited to attend as an exhibitor, however, did not do so.

## Post event

- Thank you emails were sent out to jobseekers who attended that hadn't already registered with recruiter.
